# Fframwaith

# ar gyfer

# Arolygiad Llawn ar y Cyd

# o

# Waith Troseddu Ieuenctid

(i'w ddefnyddio mewn arolygiadau gyda gwaith maes yn cychwyn ar 25ain Chwefror ac ar ôl hynny)

Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi | 1st Floor Manchester Civil Justice Centre| 1 Bridge Street West| Manchester | M3 3FX| 0161 2405336

## 1. Cyflwyniad

Mae'r Arolygiad Llawn ar y Cyd yn rhan o raglen o Arolygu Gwaith Troseddu Ieuenctid cymesur â risg y cytunwyd arni gan Weinidogion. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r fframwaith a fabwysiadwyd gan Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi ac arolygiaethau sy'n bartneriaid ar gyfer yr arolygiad hwn yng Nghymru ac yn Lloegr. Cafodd ei datblygu yn dilyn ymgynghori gyda YOTau, arolygiaethau sy'n bartneriaid a phartïon eraill â diddordeb.

Bwriedir i'r fframwaith hwn gael ei ddarllen law yn llaw â'r ddogfen 'MEINI PRAWF AR GYFER AROLYGIAD LLAWN AR Y CYD' a gyhoeddwyd ar wefan Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi.

Cynhelir yr Arolygiad Llawn ar y Cyd (FJI) yn chwe ardal awdurdod lleol y flwyddyn, pump yn Lloegr ac un yng Nghymru fel arfer. Mae'n canolbwyntio'n bennaf ar yr ardaloedd hynny lle mae achos i bryderu ynghylch perfformiad. Penderfynir ar hyn yn dilyn dadansoddi gwybodaeth a dderbynnir gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, gwybodaeth a geir o arolygiadau eraill a data sydd ar gael yn gyhoeddus, a thrwy ymgynghori gydag arolygiaethau eraill drwy gyfrwng cyfarfodydd 'Banc Gwybodaeth' chwarterol. Bob blwyddyn bydd o leiaf un ardal sydd ag adroddiad o berfformiad cadarn yn cael ei arolygu o fewn y cyfanswm o chwe ardal er mwyn nodi a rhannu'r dysgu am gryfderau a chynnal meincnod ar gyfer perfformiad da dan fethodoleg yr FJI.

Cynhelir rhaglen arolygu Sgrinio Ansawdd Byr (SQS) ar wahân mewn amrywiaeth ehangach o ardaloedd yng Nghymru a Lloegr. Ceir manylion llawnach am y rhaglen hon mewn man arall yn y ddogfen hon ac ar wefan Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi.

## 2. Cyfnod rhybudd ar gyfer arolygiadau

Mae polisi'r llywodraeth yn galw am gynnal arolygiadau heb rybudd neu gyda rhybudd byr iawn. Dylai gwaith gael ei arolygu 'fel y mae' gyda'r lefel isaf o waith paratoi, yn hytrach na sut y byddai'r corff a arolygir 'am iddo fod'.

Mae model arolygiaeth ar y cyd dan arweiniad Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi yn ceisio ymwneud â staff sy'n gyfrifol am achosion unigol i drafod eu hachosion eu hunain er mwyn hwyluso gwella. Byddant yn defnyddio sampl achos darluniadol sy'n anelu at fod yn gynrychioliadol o natur amrywiol y llwyth achosion ôl llys. Sylweddolwn beth yw'r problemau logistaidd allai gael eu hachosi i'r ardal sy'n destun yr arolygiad os na chaiff ei gyhoeddi o gwbl dan y model hwn, yn enwedig lle mae eisoes yn cael problemau o ran perfformiad. Felly rydym yn rhoi'r rhybudd lleiaf posibl yn dilyn ymgynghori i bennu beth yw'r cyfnod lleiaf sy'n briodol i'r fethodoleg.

Bydd y rheolwr YOT[1] yn cael ei hysbysu o'r bwriad i arolygu dros y ffôn ac ar e-bost ar y dydd Gwener bythefnos cyn i ni ymweld â'r safle. Gofynnir iddynt wneud y gwaith paratoi angenrheidiol ar gyfer yr ymweliad. Bydd yr hysbysiad yn esbonio pam ein bod wedi dewis arolygu yn eu hardal awdurdod lleol**.**

[1]Cyfeiriwn at 'reolwyr YOT' ond sylweddolwn y bydd nifer o amrywiadau ar deitl y swydd hon

Caiff yr e-bost cadarnhau ei gopïo at Brif Weithredw(y)r yr Awdurdod(au) Lleol, Cadeirydd Bwrdd Rheoli'r YOT, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant neu swydd gyfatebol a phobl eraill sy'n berthnasol.

## 3. Trosolwg o'r model arolygu

Arolygiad ar y cyd dan arweiniad Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi yw'r rhaglen FJI. Mae'n hanfodol felly, pan gaiff arolygiad ei gyhoeddi, fod pob partner perthnasol mewn ardal leol yn cydnabod natur yr arolygiad a'u rhwymedigaeth i gydweithio ac i gyfrannu tuag ato.

Mae arolygiadau FJI yn cynnwys arolygwyr o'r gwasanaeth prawf, iechyd a gofal cymdeithasol, dysgu a sgiliau a'r heddlu. Yn Lloegr y rhain yw Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi, Comisiwn Ansawdd Gofal, Ofsted ac Arolygiaeth Heddlu ei Mawrhydi. Yng Nghymru, y rhain yw Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC), Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) Estyn ac Arolygiaeth Heddlu ei Mawrhydi.

Mae'n hanfodol fod gwaith yr YOT yn gallu parhau gyda'r lefel isaf o ymyrraeth yn ystod gwaith maes yr arolygiad. Er mwyn cydnabod hyn, caiff yr FJI ei gynnal dros ddwy wythnos o waith maes, gyda bwlch o wythnos rhwng y ddwy wythnos ar y safle. Mae cynnal y gwaith maes dros ddwy wythnos wedi eu gwahanu hefyd yn golygu gwelliant arwyddocaol yn ansawdd a defnyddioldeb yr arolygiad drwy alluogi arolygiaethau sy'n bartneriaid i gyfrannu tuag at arolygiad sy'n ymateb i ganfyddiadau gwaith achos.

**Mae wythnos gyntaf y gwaith maes** yn canolbwyntio ar arolygu ymarfer. Caiff hyn ei wneud gan staff o Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi ynghyd ag asesw(y)r lleol o ardal YOT arall sydd wedi cael ei hyfforddi ym methodoleg FJI.

Bydd arolygwyr o arolygiaethau sy'n bartneriaid yn ymuno â'r arolygiad ar gyfer yr **ail wythnos o waith maes**. Wedi eu hysbysu gan ganfyddiadau wythnos gyntaf y gwaith maes, bydd arolygwyr sy'n bartneriaid yn defnyddio eu sgiliau arbenigol, er enghraifft mewn diogelu ac amddiffyn plant, dysgu a sgiliau ac iechyd i arolygu ymhellach ansawdd ymarfer, ynghyd â chyfraniad arweinyddiaeth, rheolaeth a phartneriaeth (A,RhaP) tuag at hyn. Bydd dau arolygwr o Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi (yn cynnwys yr arolygwr arweiniol) ar y safle hefyd i arolygu'r modiwlau arolygu ychwanegol (gweler paragraff 6 isod), agweddau A,RhaP y modiwl arolygu craidd a'r materion dilynol sy'n codi yn sgil wythnos gyntaf y gwaith maes. Yn ystod yr wythnos bydd ymgysylltu rhwng y tîm arolygu a defnyddwyr gwasanaeth - dioddefwyr, plant a phobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr. Bydd aelod ychwanegol o'r tîm fel arfer wedi ei neilltuo i'r gwaith hwn (gweler para 10)

Yn y rhan fwyaf o ardaloedd golyga hyn y bydd pedwar staff arolygu ar y safle yn ystod wythnos gyntaf y gwaith maes. Mewn ardaloedd mwy mae hyn yn cynyddu'n unol â hynny, ac mewn ardaloedd llai gall y nifer fod yn is. Bydd saith o staff arolygu ar y safle yn ystod ail wythnos y gwaith maes.

Bydd y gwaith maes arolygu'n dod i ben gyda chyflwyniad o ganfyddiadau'r arolygiad i Brif Weithredwr yr Awdurdod Lleol, aelodau'r Bwrdd Rheoli, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant, partneriaid lleol allweddol, aelodau etholedig blaen dros blant, trosedd ac anhrefn a thîm rheoli'r YOT. Bydd hyn yn digwydd ar y bore dydd Gwener yn ystod yr ail wythnos o waith maes.

## 4. Canolbwyntio ar ansawdd ymarfer gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi troseddu

Mae prif ganolbwynt yr arolygiad yn parhau ar ansawdd ymarfer gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi troseddu ac sy'n destun dedfryd gymunedol neu gadwraethol a roddwyd gan lys.

Yn ogystal ag elfennau craidd yr arolygiad (gwaith uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc a gwaith A,RhaP sy'n cefnogi hynny), bydd hyd at ddau fodiwl ychwanegol yn cael eu cynnwys, fel arfer yn gysylltiedig â'r rhesymau penodol dros arolygu'r ardal ALl honno.

Mae canran sylweddol o'r gwaith maes yn dal i ymwneud ag arolygu achosion unigol. Mae hyn yn digwydd mewn cydweithrediad â'r rheolwr achos lle mae hynny'n bosibl. Mae'r FJI yn darparu mwy o gyfle ar gyfer archwilio'r achos nag oedd ar gael dan y model arolygu blaenorol.

Mae'r tîm arolygu hefyd yn ceisio ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth ac arsylwi ymarfer.

Bydd sampl o achosion statudol diweddar yn cael ei archwilio. Bydd y nifer yn dibynnu ar faint yr ardal. Mae'r sampl achosion yn cynnwys cymysgedd o ddedfrydau haen cyntaf, dedfrydau cymunedol ac achosion o garcharu. Bydd canran yn achosion y mae'r rheolwr achos wedi eu hasesu fel rhai o Risg Uchel o Niwed Difrifol (RoSH), rhai agored i niwed neu sy'n debygol o aildroseddu er mwyn sicrhau fod yr FJI bob amser yn archwilio ac yn gwerthuso peth gwaith mwy cymhleth.

## 5. Amserlen arolygu

Bydd arolygiad nodweddiadol felly'n edrych fel hyn:

| Wythnos | Diwrnod | Gweithgareddau |
|---|---|---|
| -3 | Dydd Gwener | Bydd Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi yn rhoi rhybudd o arolygiad i ddod dros y ffôn ac mewn e-bost |
| -3 | Dydd Gwener | Cyflwyno dogfennau cynllunio'r arolygiad i'r YOT gan ofyn iddo wneud y trefniadau angenrheidiol. |
| -2 | Dydd Llun neu Ddydd Mawrth | Cynnal cyfarfod cynllunio rhwng yr arolygwr arweiniol a Rheolwr yr YOT (yn ddelfrydol wyneb yn wyneb, ond dros y ffôn os nad yw hynny'n bosibl). |
| | Dydd Llun i Ddydd Iau | Bydd yr YOT yn nodi sampl rhestr hir o achosion a'i gyflwyno i Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi erbyn hanner dydd ddydd Iau. |
| -1 | Dydd Llun | Bydd yr YOT yn derbyn sampl o achosion a ddewiswyd gan Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi erbyn 5pm |
| | Drwy'r wythnos | Bydd yr YOT yn creu amserlen asesu achosion ar gyfer Wythnos 1 y Gwaith Maes gan ddefnyddio'r templed a ddarperir gan Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi |
| | Drwy'r wythnos | Bydd yr YOT yn gwneud gwaith paratoi logistaidd ar gyfer Wythnos 1 y Gwaith Maes (trefnu mynediad TG, ystafelloedd cyfweld, mynediad i adeiladau ac ati) |
| | Dydd Iau | Bydd yr YOT yn anfon drafft o amserlen asesu achosion at Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi erbyn hanner dydd |
| | Dydd Iau | Bydd yr YOT yn anfon Gwybodaeth Ymlaen Llaw (fel arfer yn bodoli eisoes) at Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi erbyn hanner |

| | | |
|---|---|---|
| | | dydd |
| **Gwaith Maes Wythnos 1 Ar y safle** | Dydd Llun | Bydd y tîm arolygu o Wasanaeth Prawf ei Mawrhydi yn cyrraedd am 1.00 pm ac yn cael eu briffio am Iechyd a Diogelwch a TG am 1.30 pm |
| | Dydd Llun, 3 pm i amser cinio Dydd Gwener | Gwaith Maes Arolygu - arolygu achosion |
| | Dydd Llun 2.15 – 3.15 pm | Briffio cyd-destun i gyflwyno'r arolygiad dan arweiniad yr arolygwr arweiniol. Yn agored i Reolwr yr YOT, Cadeirydd y Bwrdd Rheoli ac aelodau'r Bwrdd, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant, aelod(au) blaen, staff YOT ac eraill sy'n arwyddocaol. |
| | Dydd Llun 3.30 pm | Cyfarfod cynllunio rhwng yr arolygwr arweiniol a rheolwr yr YOT i gadarnhau trefniadau gwaith maes wythnos 1 |
| | Dydd Gwener 12.30 am | Cyfarfod rhwng yr arolygwr arweiniol a Rheolwr yr YOT i gadarnhau'r gofynion ar gyfer gwaith maes wythnos 2.<br>Bydd yr arolygwyr yn gadael y safle erbyn 1.30 pm. |
| +1 | Dydd Llun i Ddydd Iau | Bydd yr YOT yn trefnu amserlen o gyfarfodydd yn ôl cais y tîm arolygu ar gyfer wythnos 2 y gwaith maes. |
| | Dydd Iau | Bydd yr YOT yn anfon amserlen gwaith maes wythnos 2 at yr arolygwr arweiniol erbyn hanner dydd |
| **Gwaith Maes Wythnos 2 Ar y safle +2** | Dydd Llun | Y tîm arolygu'n cyrraedd y safle am 1.00 pm ac yn cynnal cyfarfod tîm byr.<br>Briffio iechyd a diogelwch a TG i arolygwyr am 1.30 (ei ailadrodd am 8.30 am ddydd Mawrth os bydd angen) |
| | Dydd Llun 2.00 pm | Arolygwr arweiniol a rheolwr yr YOT yn cwrdd i ddelio â chynllunio sydd ar ôl i'w wneud ar gyfer yr wythnos |
| | Dydd Llun i Ddydd Iau | Y tîm arolygu ar y safle i wneud rhagor o waith arolygu achosion (gweler yr eitem isod) a chynnal cyfarfodydd; archwilio trefniadau, ac ymgysylltu â defnyddwyr. Mae hyn yn cynnwys arolygiaethau sy'n bartneriaid yn arolygu'r elfennau arbenigol o sampl o achosion, gyda staff arbenigol perthnasol, yn ogystal ag ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth - dioddefwyr, plant a phobl ifanc a rhieni/gofalwyr. Gall hefyd gynnwys arsylwi gwaith sy'n cael ei ddarparu gan bartneriaid gyda phlant a phobl ifanc sy'n hysbys i'r YOT yn cynnwys cyfweliadau gyda darparwyr |
| | Dydd Iau | Y tîm arolygu'n cyfarfod i gytuno ar ganfyddiadau allweddol, dyfarniadau a chynnwys adborth |
| | Bore Dydd Gwener | 10 am. Y tîm arolygu'n cyflwyno canfyddiadau drafft yr arolygiad.<br>Bydd YOTau'n gwahodd y canlynol i'r cyfarfod hwn:<br>• Prif Weithredwr yr ALl<br>• Cadeirydd y Bwrdd Rheoli<br>• Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant<br>• Aelodau Bwrdd Rheoli'r YOT (yn enwedig partneriaid statudol) |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Cadeirydd y Bwrdd Diogelu Plant Lleol<br>• Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus<br>• Cadeirydd y Bwrdd Iechyd a Lles<br>• Aelodau blaen dethol gyda chyfrifoldeb dros blant a throsedd ac anrhefn<br>• Tîm rheoli'r YOT<br>• Partneriaid neu swyddogion perthnasol eraill |
| +3 a 4 | | Adroddiad drafft wedi'i ysgrifennu a'i gytuno gan arolygiaethau sy'n bartneriaid |
| +5 | Dydd Llun | Anfon yr adroddiad drafft at Reolwr yr YOT i gael sylwadau |
| +6 | Dydd Gwener | Dyddiad olaf ar gyfer derbyn anghywirdebau ffeithiol gan yr YOT |
| +7 | | Y broses gyhoeddi wedi cychwyn |
| +11 (tua) | Dydd Mercher | Cyhoeddi'r adroddiad arolygu |
| +15 | | Dyddiad cau ar gyfer derbyn cynllun gwella |

## 6. Modiwlau arolygu craidd ac ychwanegol

Mae pob arolygiad yn cynnwys modiwl craidd ac un neu ddau fodiwl ychwanegol. Mae'r modiwl craidd yn ffocysu ar ansawdd gwaith mewn achosion statudol, ynghyd â chefnogi cyfraniadau A,RhaP yn gymaint â'u bod yn effeithio'n uniongyrchol ar ansawdd ymarfer.

Caiff un neu ragor o fodiwlau ychwanegol eu harolygu, sy'n berthnasol i berfformiad yr ardal YOT leol. Rhestr bresennol y modiwlau potensial yw:

- Atal Cynnar a Gwarediadau Tu Allan i'r Llys
- Gwaith Llys
- Ymyriadau
- Gwaith Cyffuriau ac Alcohol
- Llywodraethu
- Rhieni a Gofalwyr
- Dioddefwyr a Chyfiawnder Adferol.

Rhagwelir y bydd yr amrywiaeth o fodiwlau arolygu ychwanegol yn datblygu dros amser.

Er enghraifft, os yw'r mesur canlyniadau cenedlaethol ar gyfer y defnydd o'r ddalfa yn uchel iawn neu os oes pryderon eraill ynghylch gwaith mewn llysoedd, gall y modiwl ychwanegol ar Waith Llys gael ei gynnwys. Yn yr un modd, os yw nifer y rhai sy'n dod i mewn i'r system cyfiawnder troseddol am y tro cyntaf yn cynyddu yna gellir dewis y modiwlau Atal yn Fuan neu Warediadau tu Allan i'r Llys. Mae llawer o arolygiadau'n debyg o gynnwys trefniadau Llywodraethu gan fod y rhain yn bwysig i effeithiolrwydd gweithio mewn partneriaeth. Bydd meini prawf ar gyfer y modiwlau ychwanegol hyn yn cael eu cyhoeddi yn eu tro.

Pan fydd modiwlau ychwanegol yn cael eu harolygu gall fod gofyniad i arolygwyr ddewis a gwerthuso sampl ychwanegol o achosion.

## 7. Cyfranogiad arolygiaethau sy'n bartneriaid

Mae arolygiaethau sy'n bartneriaid yn cymryd rhan lawn yn yr arolygiad, fel sy'n cael ei nodi ym mharagraff 3 uchod. Mae eu sgiliau arbenigol, er enghraifft diogelu

ac amddiffyn plant, dealltwriaeth o ofynion dysgu a sgiliau, anghenion iechyd a lles a dealltwriaeth o'r defnydd o wybodaeth yr heddlu a chysylltiadau gyda Chynlluniau Integredig Rheoli Troseddwyr yn galluogi arolygwyr sy'n bartneriaid i gyfrannu eu cyngor a'u cymorth arbenigol. Mae eu gwaith yn asesu a gwerthuso ansawdd darpariaeth a'i effaith ar ganlyniadau i blant a phobl ifanc yn y meysydd arbenigol hyn yn cyfrannu'n uniongyrchol tuag at adroddiad yr arolygiad a'i argymhellion.

Mae pedwar maes i gyfranogiad arolygiaethau sy'n bartneriaid:

a. **Asesu achosion**

   Mae hyn yn canolbwyntio ar is-set o'r achosion sydd wedi cael eu harolygu yn ystod Wythnos 1 y Gwaith Maes ac sydd wedi eu nodi fel rhai sy'n cynnwys un neu ragor o'r nodweddion canlynol:

   - lefel uchel o angen yn y maes arbenigol hwnnw
   - mae cyfeiriad wedi'i wneud ar gyfer mewnbwn arbenigol
   - mae diffyg wedi ei nodi mewn perthynas â'r maes hwn sy'n galw am ymchwilio pellach
   - risg uchel o achosi niwed i eraill neu agored iawn i niwed
   - arfer da heb ei nodi yn y maes hwnnw.

   Gall hyn gynnwys arolygiaethau sy'n bartneriaid yn ymgysylltu â'r rheolwr achos, ymarferwyr arbenigol a/neu asiantaethau sy'n bartneriaid i'r YOT er mwyn olrhain cyfranogiad partneriaid yn yr achos.

b. **Caiff trefniadau arweinyddiaeth, rheolaeth a phartneriaeth** eu harolygu, yn enwedig eu cyfraniad tuag at ansawdd darpariaeth arbenigol.

c. **Caiff darpariaeth** arbenigol ei arolygu e.e. lles addysg, athrawon/tiwtoriaid, CAMHS, yr heddlu ac ati.

d. Gellir ymgysylltu ag amrywiaeth o **ddefnyddwyr gwasanaeth yn enwedig** plant a phobl ifanc, rhieni/gofalwyr a dioddefwyr; er, ar wahân i ddarpariaeth addysg/hyfforddiant a chyflogaeth (AHCh), mae hyn yn fwy tebyg o gael ei wneud gan aelod penodol o'r tîm arolygu (gweler para 10).

## 8. Paratoi ar gyfer gwaith maes arolygu

Mae dogfen ganllawiau, 'Paratoi ar gyfer FJI - Canllawiau i Reolwyr YOT' ar gael ar wefan Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi i helpu ardaloedd YOT i ddeall pa drefniadau sydd angen eu gwneud er mwyn hwyluso arolygiad effeithiol. Mae hyn yn cynnwys gofynion ynghylch mynediad i TG a chofnodion achosion, mynediad i adeiladau, cyfranogiad rheolwyr achos, mynediad i ddefnyddwyr gwasanaeth ac ati.

Mae'r canllawiau hefyd yn cynnwys manylion ynghylch y mathau o achosion sy'n cael eu harolygu, y meini prawf sy'n cael eu defnyddio ar gyfer dethol y sampl achosion, a'r cyfarfodydd arolygu y byddwn yn disgwyl eu cynnal.

***Ein disgwyliad yw y bydd ardaloedd yn datblygu cynlluniau wrth gefn yn seiliedig ar y canllawiau hyn, er mwyn iddynt fod yn barod i ymateb mewn ffyrdd amserol a phriodol unwaith y bydd yr arolygiad yn cael ei gyhoeddi.***

Unwaith y bydd arolygiad yn cael ei gyhoeddi byddwn yn darparu amserlen arolygu wedi'i baratoi i'r ardal gyda bylchau lle bydd asesu achosion yn cael eu gosod, yn ogystal â gweithgareddau eraill; ynghyd â chyfarwyddiadau ar gyfer cwblhau'r amserlen.

Ardaloedd sy'n gwneud y dasg hon, yn hytrach nag Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi neu ein harolygiaethau sy'n bartneriaid, oherwydd bod angen trefnu'r amserlen ar rybudd byr iawn er mwyn gweithio o gwmpas ymrwymiadau'r staff a'r partneriaid lle mae hynny'n bosibl.

Dyma'r gweithgareddau allweddol y mae'n rhaid i YOTau eu gwneud rhwng cyhoeddi'r arolygiad a dechrau'r wythnos gyntaf o waith maes:

- Nodir rhestr hir o achosion a'i anfon at Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi erbyn hanner dydd ar y dydd Iau (h.y. wythnos - 2) yn dilyn cyhoeddi'r arolygiad
- Trefnu mynediad i TG a lle yn y swyddfa ar gyfer y tîm arolygu
- Hysbysu staff a phartneriaid am yr arolygiad a'u briffio. Sicrhau fod yr holl bartneriaid yn sylweddoli pwysigrwydd ymgysylltu'n llawn gyda'r arolygiad
- Wedyn, yn dilyn derbyn y sampl achosion terfynol ar y dydd Llun cyn yr arolygiad, llenwi'r amserlen arolygu ar gyfer asesiadau achos gyda staff sy'n gyfrifol am achosion, a threfnu cyfarfodydd eraill yn ôl y gofynion.
- Dechrau cynllunio a threfnu sesiynau ymgysylltu rhwng y tîm arolygu a defnyddwyr gwasanaeth unwaith y mae Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi wedi cadarnhau'r sampl achosion terfynol.

Mae Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi yn awyddus i gefnogi YOTau wrth wneud y gwaith hwn ac i ddarparu un man cyswllt ar gyfer unrhyw gyngor a chefnogaeth yn ystod y cyfnod paratoi.

## 9. Tystiolaeth / Gwybodaeth ymlaen llaw

Ni fyddwn yn gofyn i YOTau gwblhau hunanasesiad na darparu tystiolaeth arall cyn wythnos gyntaf archwilio gwaith maes, yn wyneb y rhybudd byr a roddir a'r amrywiaeth o waith paratoi logistaidd arall sydd angen ei wneud yn y cyfnod yn arwain at gychwyn y gwaith maes.

Fodd bynnag, mae gofyn i beth gwybodaeth a dogfennau allweddol fod ar gael yn electronig erbyn canol dydd ar y dydd Iau cyn cychwyn wythnos gyntaf y gwaith maes. Mae'n debyg y bydd y rhain eisoes ar gael, a bydd angen eu cael fel copi caled pan fydd y tîm yn cyrraedd yn Wythnos 1 y Gwaith Maes er mwyn hysbysu'r arolygiad a'i drefniadau. Bydd manylion pellach yn cael eu darparu gan yr arolygwr arweiniol ar gyfer pob arolygiad. Mae rhestr ddangosol o ddogfennau a gwybodaeth arall y bydd arolygwyr yn eu ceisio ar gael yn y canllawiau a gyhoeddwyd ar gyfer paratoi am FJI.

Bydd arolygiaethau iechyd hefyd yn gofyn i YOTau lenwi holiadur blynyddol i ddarparu gwybodaeth am gynnydd yn erbyn safonau gofal iechyd ac am ganfyddiadau adroddiadau iechyd arbenigol a gyhoeddwyd yn flaenorol. Bydd manylion pellach am hyn yn cael eu cyhoeddi ar wahân.

Mae arolygwyr yn cadw'r hawl i ofyn am ddogfennau neu dystiolaeth ychwanegol wrth i'r arolygiad fynd yn ei flaen.

## 10. Cyfranogiad Defnyddwyr Gwasanaeth yn yr arolygiad

Mae pob arolygiad yn dal i geisio barn defnyddwyr gwasanaeth, yn enwedig plant a phobl ifanc, rhieni/gofalwyr a dioddefwyr.

Mae tri maes wrth geisio barn defnyddwyr gwasanaeth:

a. **Arolwg blynyddol**: Bydd Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi yn datblygu arolwg blynyddol o blant a phobl ifanc i'w hwyluso ym mhob ardal. Bydd canlyniadau'r arolwg yn cael eu rhannu gyda phob YOT sy'n cymryd rhan a byddant hefyd yn cael eu defnyddio i hysbysu cynllunio arolygiadau a chanlyniadau. Disgwylir i hyn gael ei lansio ym mis Ebrill 2013. Bydd manylion pellach yn cael eu cyhoeddi gyda hyn.

b. **Sampl defnyddwyr gwasanaeth:** bydd aelod ychwanegol o'r tîm arolygu'n cael ei neilltuo i sicrhau fod lleisiau plant a phobl ifanc, rhieni/gofalwyr a dioddefwyr yn cael eu defnyddio i hysbysu canlyniadau'r arolygiad. Cynhelir cyfarfodydd unigol gyda defnyddwyr gwasanaeth yn ystod ail wythnos y gwaith maes. Bydd y cyfweliadau unigol hyn yn digwydd gyda'r rhai sydd wedi eu cynnwys yn sampl achosion yr arolwg (plant a phobl ifanc, rhieni/gofalwyr a dioddefwyr).

c. **Cyfweliadau diddordebau arbenigol** Gall arolygwyr sy'n bartneriaid ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth, yn enwedig i archwilio ansawdd amddiffyn plant ac addysgu, dysgu ac asesu.

## 11. Arsylwi Ymarfer a darpariaethau eraill

Mae mwy o ffocws ar ansawdd yr ymyriadau sy'n cael eu darparu gyda phlant a phobl ifanc, ac ansawdd yr ymgysylltu rhwng gweithwyr achos a phlant a phobl ifanc. Gwneir hyn mewn nifer o ffyrdd.

Yn gyntaf, mae'r Meini Prawf Arolygu a'r dulliau gweithredu arolygu wedi cael eu gwella.

Yn ail, mae'n bosibl y bydd arsylwi uniongyrchol yn digwydd gyda phlant a phobl ifanc yn unigol a/neu mewn grwpiau.

Yn drydydd, gall darpariaethau eraill gael eu harsylwi gan eu bod yn berthnasol i blant a phobl ifanc sy'n hysbys i'r YOT, e.e. cyrsiau rhianta neu ddarpariaethau hyfforddi.

Bydd y gwaith hwn yn digwydd yn ystod Wythnos 2 y Gwaith Maes.

## 12. Dyfarniadau Arolygu ac Adroddiadau Arolygu

Bydd y tîm arolygu'n gwneud dyfarniadau am bob un o brif themâu'r arolygiad (e.e. lleihau'r tebygrwydd o aildroseddu, gwarchod y cyhoedd, amddiffyn y plentyn neu'r person ifanc a sicrhau fod y ddedfryd yn cael ei chwblhau), yn ogystal â phob modiwl ychwanegol.

Mae dyfarniadau arolygu ar gyfer pob thema'n seiliedig ar system sêr pedwar pwynt; gyda'r dyfarniad uchaf yn bedair seren a'r isaf yn un seren. Caiff y graddio ei ddarlunio yn y testun drwy ddefnydd ychwanegol o ddisgrifiadau gradd. Er

enghraifft, mae un seren yn gyfystyr â dyfarniad 'gwael' fydd yn galw am welliant mawr ar fyrder ac mae pedair seren yn 'dda iawn' ac yn disgrifio gwaith o ansawdd da. Mae Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi yn dal i gyfrifo sgoriau am ansawdd gwaith achos. Caiff y rhain eu cynnwys mewn adroddiadau FJI o fewn y dyfarniadau cyffredinol.

Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi yw'r corff arweiniol ar gyfer yr arolygiad hwn ac mae ganddo reolaeth olygyddol dros gynnwys yr adroddiad a dros ei gyhoeddi. Fodd bynnag, mae Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi hefyd yn parchu arbenigedd arolygiaethau sy'n bartneriaid. Ni fydd yr arolygwr arweiniol na'r arolygiaeth arweiniol yn newid eu cyfraniadau i'r adroddiad yn sylweddol, ar wahân i addasu i gyd-fynd ag arddull neu lif yr adroddiad, heb gyfeirio at yr arolygwr sy'n gyfrifol. Yn yr achos annhebygol lle mae methiant i gytuno ar ddyfarniadau neu ar destun yr adroddiad, caiff y mater dan sylw ei gyfeirio yn y lle cyntaf at reolwr sicrhau ansawdd yr arolygiaethau (neu berson cyfatebol) ac os nad oes modd dod i gytundeb caiff ei anfon at uwch reolwyr enwebedig er mwyn datrys y mater. Ni ddylai'r prosesau hyn achosi oedi dianghenraid i'r dyddiadau ar gyfer anfon adroddiadau drafft neu derfynol at ardal yr YOT.

Caiff yr adroddiad ei olygu a'i anfon at yr arolygwyr hynny oedd yn bresennol yn yr arolygiad er mwyn cael eu sylwadau, ac yna caiff ei anfon at y corff gafodd ei arolygu er mwyn cywiro unrhyw wallau ffeithiol. Ar ôl ei brawf ddarllen caiff ei gyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi a chyhoeddir hysbysiad i'r wasg. Yn dilyn pob arolygiad FJI bydd cyflwyniad yn mynd at y Gweinidog yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder sy'n gyfrifol am noddi Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi a chaiff yr adroddiad ei gopïo i'r Swyddfa Gartref. Caiff yr adroddiad hefyd ei gopïo i'r Gweinidog Plant (Adran Addysg) a'r Gweinidog Iechyd (Adran Iechyd). Yng Nghymru, bydd yr adroddiad yn mynd at y Gweinidogion cyfatebol yn Llywodraeth Cymru gyda chopi at Bennaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn Llywodraeth Cymru.

Bydd adroddiadau'n gwneud argymhellion i ffocysu gwaith gwella ar feysydd sy'n flaenoriaeth, ac mae gofyn cael cynllun gwella ar ôl pob arolygiad. Caiff y cynllun ei gymeradwyo gan Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi mewn cydweithrediad â'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, gyda'r Bwrdd yn monitro gweithredu'r cynllun.

Cyhoeddir adroddiadau yn electronig yn hytrach nag ar bapur, a byddant yn ceisio sicrhau fod dyfarniadau'n fwy hygyrch i gynulleidfa ehangach sy'n cynnwys defnyddwyr gwasanaeth a phartïon eraill sydd â diddordeb. Bydd copïau papur o'r adroddiad ar gael i bob ardal sy'n cael ei arolygu os gwneir cais am hynny. Cynhyrchir adroddiad cryno ar ffurf poster, yn addas i'w ddefnyddio gan blant a phobl ifanc.

## 13. Cysylltiadau gyda'r rhaglen arolygu fer (SQS)

Cafodd y rhaglen SQS ei chyflwyno yn hydref 2012, i redeg ochr yn ochr â'r rhaglen FJI. Mae hwn hefyd yn arolygiad rhybudd byr. Mae Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi yn ymweld â hyd at 20% o YOTau bob blwyddyn o bob rhan o Gymru a Lloegr. Caiff YOTau sydd i'w harolygu yn y rhaglen hon eu dethol o blith yr amrediad llawn o ddata perfformiad a gyhoeddwyd, er mwyn darparu golwg ar draws y gwasanaeth cyfan o waith gyda'r plant a'r bobl ifanc hyn.

Yn y rhaglen hon, yn nodweddiadol bydd tri o staff arolygu (llai yn yr ardaloedd lleiaf un a mwy yn yr ardaloedd mwy) yn treulio tri diwrnod mewn YOT, yn

nodweddiadol o amser cinio dydd Llun i gyda'r nos ddydd Mercher. Byddant yn archwilio ansawdd y gwaith mewn nifer fechan o achosion ar ddechrau'r ddedfryd. Mae'r ffocws ar ddechrau'r ddedfryd wedi cael ei ddewis gan fod canran uchel o arolygiadau yn y rhaglen flaenorol wedi nodi fod angen gwella ar yr agwedd honno o'r gwaith, ac mae'r arolygu thematig diweddar ar waith mewn llysoedd wedi nodi'r angen am welliant sylweddol yn ansawdd adroddiadau cyn dedfrydu.

Adroddiad byr yw'r canlyniad a adroddir am bob arolygiad, ar ffurf llythyr strwythuredig estynedig, sy'n darparu sylwebaeth ar ansawdd y gwaith yn yr YOT hwnnw ac yn amlygu unrhyw feysydd arwyddocaol ar gyfer gwella neu gryfderau eithriadol. Caiff hwn ei ddarparu i'r YOT o fewn ychydig ddyddiau i gwblhau'r gwaith maes. Bydd canlyniadau o'r sgrinio hwn hefyd yn hysbysu'r sylfaen wybodaeth sy'n cefnogi adnabod ardaloedd sy'n derbyn yr FJI neu arolygiadau eraill.

O bryd i'w gilydd bydd Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi yn cyhoeddi adroddiadau cyfanredol o arolygiadau SQS sydd wedi eu cwblhau er mwyn hysbysu llunwyr polisi a phartïon eraill sydd â diddordeb.

## 14. Defnyddio Aseswyr Lleol

Mae Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi a YOTau unigol yn cydnabod y gwerth a ychwanegwyd i'r rhaglen flaenorol gan Aseswyr Lleol (arolygwyr gwirfoddol o YOT arall). Rydym yn ddiolchgar i staff unigol ac i'r YOTau fu'n cymryd rhan yn yr elfen aseswyr lleol. Rydym felly'n parhau gyda'r defnydd o aseswyr lleol yn y rhaglenni FJI ac SQS.

Bydd pob aseswr lleol enwebedig yn cymryd rhan mewn un arolygiad SQS. Bydd canran o'r aseswyr wedyn yn cael gwahoddiad i gymryd rhan yn Wythnos 1 y Gwaith Maes mewn arolygiad FJI dilynol.

Mae angen i YOTau gadarnhau fod aseswyr lleol ar gael am hyd at ddwy wythnos arolygu, ac un digwyddiad hyfforddi, dros gyfnod o ychydig fisoedd. Bydd argaeledd ar gyfer dyddiadau arolygu i aseswyr lleol yn cael ei drafod ymlaen llaw gyda Rheolwyr YOT.

Bydd aseswyr lleol fel arfer yn aros gyda thîm arolygu Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi, gydag Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi yn trafod costau teithio a chynhaliaeth yn uniongyrchol yn hytrach na thrwy YOTau unigol.

## 15. Cyfrinachedd, gwarchod data a chadw cofnodion

Bydd yr holl staff sy'n rhan o'r FJI yn cymryd camau i sicrhau cyfrinachedd rhesymol a phriodol. Lle mae perygl i ddiogelwch unigolyn, mae hyn yn cael blaenoriaeth dros gyfrinachedd, ond os bydd angen rhannu unrhyw wybodaeth bydd hyn yn cael ei drafod gyda'r rheolwr achos priodol a/neu'r rheolwr, a hynny ymlaen llaw yn ddelfrydol.

Mewn achos lle bydd pryderon yn ymwneud â gwarchod y cyhoedd neu amddiffyn plant yn codi yn ystod yr arolygiad, gydag angen am eu hunioni ar unwaith, a hynny y tu hwnt i gylch gorchwyl yr YOT, yna mae proses ar wahân i wneud hynny.

Bydd arolygiaethau'n dilyn eu polisïau eu hunain ynghylch cadw cofnodion mewn perthynas â'u cyfraniad i'r arolygiad. Rhoddir caniatâd i arolygiaethau sy'n bartneriaid edrych ar dystiolaeth arolwg a gadwyd am resymau cyfreithlon, er

enghraifft ymchwilio i gwynion am ddedfrydau, ymddygiad arolygwyr neu at bwrpas sicrhau ansawdd.

## 16. Sicrwydd Ansawdd

Caiff y gwaith o sicrhau ansawdd ei wneud yn unol â Strategaeth a Chynllun Gweithredu Sicrwydd Ansawdd Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi. Mae pob aelod staff yn gyfrifol am gyflawni lefel uchel o ansawdd yn ei waith ei hun ac am gynorthwyo ei gydweithwyr i wneud yr un fath. Bydd arolygiaethau sy'n bartneriaid yn dilyn eu prosesau SA mewnol er mwyn sicrhau bod eu cyfraniadau i'r sail tystiolaeth ac i'r adroddiad terfynol yn dod i'r safon uchel ofynnol.

## 17. Adborth a gwelliannau'r arolygiad

Mae Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi a'i bartneriaid yn gweithio'n rheolaidd i ganfod ffyrdd i wella ansawdd ei waith. O fewn yr FJI a'r SQS mae hyn yn cynnwys adborth gan reolwyr achos a staff eraill yn dilyn eu cyfweliadau (drwy gyfrwng Survey Monkey) a gwerthusiad o'r prosesau arolygu gan reolwr y corff sy'n cael ei arolygu. Caiff y rhain eu coladu a'u bwydo'n ôl i staff yr arolygiaeth a'u rhannu gydag arolygiaethau sy'n bartneriaid.

## 18. Ymddygiad a Chwynion

Mae disgwyl i bob aelod staff sy'n cymryd rhan mewn arolygiadau i gadw at god ymarfer eu harolygiaeth eu hunain drwy gydol y broses arolygu. Rhagwelir y bydd y mwyafrif llethol o arolygiadau'n cael eu cynnal heb unrhyw bryderon ar ran yr YOT na'i bartneriaid a'r defnyddwyr gwasanaeth. Os bydd pryderon yn codi yn ystod arolygiad byddai'r arolygwr arweiniol yn ystyried y pryder ac yn gwneud popeth sy'n bosibl i ddatys y broblem ar y cyfle cyntaf, gan osgoi'r angen i waethygu'r mater.

Os yw'r achwynydd yn anhapus gydag ymateb yr arolygwr arweiniol, bydd yr achwynydd yn cael ei hysbysu'n llawn ynghylch y drefn ar gyfer gwneud cwyn. Bydd cwynion yn cael eu trafod drwy drefn gwynion yr arolygiaethau unigol, mewn cydweithrediad ag Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi. Lle mae cwynion yn ymwneud â mwy nag un arolygiaeth, bydd cydweithredu'n digwydd fel sy'n briodol er mwyn dod i ddatrysiad yn amserol ac yn gydlynol.

**Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi**
**Adolygwyd Ionawr 2013**